YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# Wythnos 14: Symud mlaen 1

## #addewidagobaith #hopeandpromise



**O Dduw,**

**Diolch am yr holl atgofion sydd gennyf am yr ysgol, diolch am (ychwanegwch eich atgofion fan hyn)**

**Diolch am bopeth dwi wedi ei ddysgu yn yr ysgol sydd wedi fy ngalluogi i dyfu fel person, dwi wedi dysgu fy mod yn dda am wneud llawer o bethau. Dwi'n werthfawrogol fy mod yn (gallwch ychwanegu pethau fel "yn ffrind da" neu "dwi'n fathemategwr neu beldroediwr da)**

**Cynorthwywch fi i gofio y pethau dwi wedi ei ddysgu yn yr ysgol. Cynorthwywch fi i gofio (ychwanegwch bethau pwysig fel Rhannu, Gofalu am ein byd, Bod yn garedig, Darllen ayyb)**

**Cynorthwywch bob un ohonom i gofio eich bod yma ac yn ein caru. Diolch i chi am fod wrth ein hochr yn yr ysgol ac am yr holl atgofion gwych.**

**Amen.**

Wel am flwyddyn ôd a gwahanol iawn rydym wedi ei gael! Dwi'n siwr nad oedd unrhywun ohonom yn meddwl y byddai diwedd y tymor yn edrych fel hyn. Efallai i chi deimlo tristwch a chynnwrf. Efallai i chi fod yn siomedig oherwydd nad yw'n bosib cael eich gwasanaeth gadawyr a'r holl bethau eraill sy'n gwneud diwedd y tymor yn wahanol i fel mae pethau rwan. Efallai eich bod yn hynod gyffrous am beth fydd yn dod y flwyddyn nesaf? Ysgol newydd? Dosbarth newydd?
Pa un bynnag deimlad sydd yn mynd trwy eich meddwl hoffwn ddefnyddio'r tair wythnos nesaf o'r Adnoddau Enfys i feddwl am ein atgofion, i ddathlu ac am symud mlaen. Mwynhewch!



Dechreuwn gyda stori o'r Beibl, o Luc 24, "Y Ffordd i Emaus"
Byddwn yn rhannu'r stori i dri rhan ond peidiwch a phoeni mae diweddglo hapus iddi!

Cerddodd dau o ddilynwyr yr Iesu ar hyd y ffordd i dref bach Emaus. Roeddynt yn drist gan fod yr Iesu newydd farw ac roeddynt yn ei garu ac yn caru ei ddysgeidaeth. Roedd hanes fod rhai wedi gweld yr Iesu yno er ei fod wedi marw. Wrth gerdded soniodd y ddau am yr Iesu a'u hamser gydag ef. Roedd ei bywydau gyda'r Iesu wedi bod yn gyffrous a llawn hwyl. Cofiodd y ddau hanesion ac atgofion am yr Iesu, efallai iddynt hefyd sôn am y pethau anhygoel iddynt ddysgu ganddo.

Yma rydym am atal y stori am ychydig!!!



Mae ein ffrindiau o esgobaethau  St Albans, Rochester, Guildford a Canterbury wedi meddwl am gwestiynau arbennig am y stori i chi, diolch iddynt am rannu gyda ni.
Yn union fel y pobl ar y ffordd i Emaus eich tro chi rwan yw i feddwl yn ôl dros y flwyddyn diwethaf ac os ydych yn ddisgybl blwyddyn 6 meddwl am eich amser yn yr ysgol gynradd. Efallai yr hoffech chi feddwl am y cwestiynau yma a'u trafod gyda phawb adref neu os ydych yn yr ysgol gydach athrawon a ffrindiau.
Meddwyliwch yn ôl ar eich amser yn yr ysgol

1) **Beth yw eich hoff atgofion?**
2) **Sut ydych chi wedi newid dros eich amser yn yr ysgol?**
3) **Pa wersi pwysig ydych chi wedi dysgu?**



Gobeithiwn fod eich atgofion yn llawn hwyl a dysgu. Mae'n bwysig i'w cofio ar amser sy'n gallu bod yn anodd i rhai. Beth am i ni ddiolch i Dduw am yr holl bethau anhygoel rydym wedi eu wneud yn ein hysgolion. Gallwch bersonoli eich gweddi wrth ychwanegu eich atgofion chi.

**Bocs Atgofion**

Efallai hoffech greu bocs atgofion personol. Defnyddiwch hen focs a rhoi ynddo bethau sy'n eich atgoffa o'ch amser yn yr ysgol. Gallai fod yn ddarn o waith, llun neu ffotograff, rhan o'ch gwisg ysgol, eich hoff lyfr darllen. Nid oes rhaid rhoi llwyth ynddo ond gallwch ychwanegu mwy ar ddiwedd pob blwyddyn ac edrych yn ôl ar beth sydd eisioes yn y bocs. Ysgwni wrth i ddisgyblion blwyddyn 6 symud i'r uwchradd beth fydd yn y bocs ar ddiwedd blwyddyn 7?

Follow us on twitter @churchinwales

@diostasaphedu @pobldewi @esgobaethbangor @llandaffed @swanbreced @apmdaly